

## HUGHES, THOMAS JONES (1822 - 1891), clericwr a gramadegydd

**Enw:** Thomas Jones Hughes  
**Dyddiad geni:** 1822  
**Dyddiad marw:** 1891  
**Priod:** Eleanor Hughes (née Brown)  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clericwr a gramadegydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac leithoedd  
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd ym Mangor, 11 Mehefin 1822, a'i addysgu yn Ysgol Friars. Aeth oddi yno i Goleg y Drindod, Caergrawnt, gan ymaelodi yn 1840; daeth yn ysgolor o'i goleg a graddio â'r clod uchaf mewn mathemateg. Cymerodd ei B.A. yn 1844, M.A. yn 1847. Ordeiniwyd ef yn ddiakon gan yr esgob Bethell o Fangor, 1 Chwefror 1846, a chafodd urddau offeiriad 20 Rhagfyr yr un flwyddyn. Trwyddedwyd ef i guradiaeth Llanfaes ym Môn, ac yng Ngorffennaf 1850 aeth yn gurad i Laneurgain yn Sir y Fflint; oddi yno dyrchafwyd ef yn ficer Llanasa, Awst 1860, a bu yno hyd 1870, pryd y symudodd i Lanfair Dyffryn Clwyd. Bu yno'n ficer hyd ei farw, 5 Chwefror 1891, a chladdwyd ef yno. Priododd Eleanor, merch W. H. Brown o Gaer, 27 Mehefin 1865, a bu iddynt fab. Gwasanaethodd fel arolygydd ysgolion yn yr esgobaeth i'r esgob Short o Lanelwy, a chyfrannodd nifer o ysgrifau i'r Wasg Eglwysig Gymraeg, yn arbennig i'r *Haul* a'r '*Geiryddiaeth y Beibl Cymraeg*,' 1885, 1886, a '*Cymraeg y Llyfr Gweddi*,' 1887, 1888. Yn eisteddfod Aberffraw, 1849, enillasai wobwr am draethawd ar '*Cystrawen a Theithi Cymraeg a Saesneg*.'

### Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

### Ffynonellau

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 18 Chwefror 1891

*Yr Haul*, 1891, 85

A. Ivor Pryce, *Diocese of Bangor During Three Centuries, seventeenth to nineteenth century inclusive being a digest of the registers of the bishops* (1929)

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874)

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734491](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734491)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

